

## Anerchiad IRhJ i'r Gynhadledd 2025

Gyfeillion,

Pleser o'r mwyaf yw eich annerch yma yn ein Prifddinas eleni. Bydd sawl un ohonoch yn cofio'r Gynhadledd hynod lwyddiannus yn y Novotel sawl blwyddyn yn ôl ond rwy'n meddwl fod llwyddiant y Gynhadledd wedi gwneud yr ymdrech i deithio i'r De-ddwyrain eto eleni yn ymdrech werth chweil.

Cyn i ni fynd dim ymhellach, carwn gydnabod y rheiny o deulu UCAC yr ydym wedi eu colli dros y flwyddyn diwethaf.

Carwn dynnu eich sylw at un golled ddiweddar, sef John Emrys Jones. Roedd John Emrys yn o gewri UCAC. Daeth John Emrys Jones yn aelod o UCAC ar Ionawr 1, 1960 . Bu'n weithgar iawn yn yr Undeb, yn Drysorydd Cenedlaethol am chwarter canrif tan 2013 ac yn aelod o'r Cyngor Cenedlaethol. Parhaodd i weithredu tan yn ddiweddar iawn fel ymddiredolwr i'r Undeb. Bydd nifer ohonoch chi yn ei gofio mewn cynhadledd neu yng nghyfarfodydd y Cyngor yng Ngwesty Plas Antaron, fel ag yr oedd.

Mae ei angladd y prynhawn yma, ac er na fydd modd i ni yrru cynrychiolaeth, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w wraig Jean a'i deulu a diolchwn iddo am ei wasanaeth. Gofynnaf i chi sefyll i gydnabod cyfraniad gwerthfawr John Emrys i'r Undeb.

Fel mae'n digwydd, roedd John Emrys yn rhan o'r trafodaethau i symud Prif Swyddfa UCAC o Gaerdydd i Aberystwyth yn ôl yr hyn rwyf yn ei ddeall. Roedd rhesymeg clir dros wneud bryd hynny o ran lle roedd trwch yr aelodaeth, wrth gwrs, ond tybed a fyddwn ni'n symud eto pe bawn yn ystyried heddiw?

Mae'n gwbl briodol ein bod yma yng Nghaerdydd heddiw, wrth gwrs, gan ein bod wedi gweld twf aruthrol addysg Gymraeg yn y de ddwyrain ers i ni symud o'r ddinas a bellach yn trafod penderfyniadau Caerdydd, boed hynny ym Mharc Cathays neu yn y Bae, wrth ystyried cyflog, amodau gwaith a pholisiau addysgol.

Er gwaetha'r newidadau amlwg a fu, siom yw nodi diffygion y Llywodraeth eleni mewn sawl maes....

Fel y mae'r mwyafrif ohonoch yn ymwybodol, ER bod sawl cyfarfod gyda'r Llywodraeth a'r awdurdodau wedi bod i drafod, nid ydynt wir wedi mynd i'r afael a materion Llwyth Gwaith o ddifri.

Digon teg fod grantiau ac adrodd ar lefel ysgol wedi derbyn sylw dros y ddwy flynedd ddiwethaf – ond fydden ni ddim yn gweld lleihad yn y llwyth marcio a pharatoi o ganlyniad i hynny.

Do, cafwyd adolygiad strategol o faterion yn ymwneud ag amodau gwaith athrawon gan CACAC rhyw ddwy flynedd yn ol. A byddai gweithredu'r argymhellion yn siwr o wella amodau gwaith. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ddisgwyl am weithredu pellach gan yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Llywodraeth. Eu hymateb, fisoedd ar ôl derbyn yr adroddiad? Eu bod yn derbyn pob un o'r argymhellion, OND na fyddent yn gweithredu ar unrhyw argymhelliad, os nad yw'n gost niwtral. Maent wedi nodi ei bod yn amser symud ymlaen i drafod ymhellach, ond cawn weld pa mor hir y byddwn yn disgwyl i hynny ddigwydd....

Yn yr un modd maent wedi addo 'uwchgynhadledd' ar ymddygiad, ac mae'n ymddangos fod neuadd gynadledda fawr wedi ei harchebu yng Nghasnewydd i'w chynnal – er nad ydym fel undebau wedi derbyn y manylion.\* Mae perygl, wrth gwrs, mai trafod gwag fydd yn digwydd yn hytrach na gweithredu nerthol o'r canol, ond fe fydd llais aelodau UCAC yn cael ei glywed yn glir yn mynnu fod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r heriau.

Efallai yn wir mai dyma'r 12 mis mwyaf siomedig o ran perfformiad adran addysg y Llywodraeth ers peth amser. Coron y cwbl, wrth gwrs, oedd iddynt ddiystyru'n llwyr y prosesau datganoleddig cytunedig wrth oedi ac oedi cyn cyhoeddi y codiad cyflog i athrawon. Roedd y dewis i wneud hynny'n sarhau'r rhanddeiliaid, ac yn wir, CACAC ei hun. Pam na fu i'r Ysgrifennydd Cabinet gyhoeddi'r setliad tan fis Tachwedd, er eu bod wedi derbyn adroddiad CACAC ers mis Gorffennaf? Er mwyn cydweithio gyda Lloegr? Pam felly oedi'r ymgynghoriad am wythnosau wedi i Loegr ymgynghori? Yn wir, pam disgwyl arweiniad Lloegr o gwbl? Roedd yr holl broses yn codi cwestiynau mawr o allu'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Llywodraeth i weithredu yn effeithiol.

Yn bwysicach, roedd yn taneseilio datganoli a'r Senedd ei hun. Wedi blynyddoedd o frwydro i sicrhau cyfundrefn addysg annibynnol i Gymru, roedd yn ergyd fawr i ni fel undeb, wrth gwrs, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Cyngor am eu harweiniad doeth ar y mater, arweiniad a alluogodd ni i ddatgan yn glir ein hanfodlonrwydd llwyr gyda'r sefyllfa ac yn wir yr Ysgrifennydd Cabinet.

Mae cylch CACAC wedi cychwyn, o'r diwedd, ar gyfer 2025-26 – ond mae ffaeleddau'r system yn glir unwaith yn rhagor – yr Ysgrifennydd Cabinet yn peidio gyrru'r llythyr at CACAC tan ymhell i'r flwyddyn Newydd (6 mis yn hwyr i bob pwrpas), yna amserlen tynn iawn i randdeiliaid ymateb ddwywaith i ystyried cyflog yn unig a hynny o fewn cyfundrefn na ellid dweud fod CACAC yn annibynnol mewn unrhyw fodd, a'u penderfyniadau wedi eu rhwymo gan ofynion gwleidyddol iawn. Unwaith eto rwyf yn ddiolchgar iawn am gytundeb y Cyngor mai ymateb cryno gan UCAC fyddai'r ffordd ymlaen. Cawn weld

beth fydd ymateb yr YC, neu cawn weld beth fydd cyhoeddiad Llywodraeth Lloegr beth bynnag.

Fel nad ydwyf yn eich cadw'n ormodol, fe wna i ddod â'r anerchiad yma i ben drwy ddatgan fy niolch i holl staff UCAC am eu cefnogaeth ac am sicrhau fod y Gynhadledd yma yn lwyddiant.

Diolch hefyd i Ceri, ar ei hanner mae ei waith, ond mae wedi gwneud gwaith gwerthfawr tu hwnt hyd yn hyn, yn ymgysylltu ag aelodau ac yn llefaru ar eu rhan.

Diolch a phob hwyl i Sara wrth iddi gychwyn ar ei gwaith fel Llywydd eleni ac i Rhun fel mae'n cychwyn ar ei waith fel Is-Lywydd am flwyddyn o fis Medi.

Ond mae diolch arbennig i Mererid, Iona ac yn enwedig Nia am eu gwaith manwl yn paratoi at y Gynhadledd eto eleni. Llongyfarchiadau iddynt am lwyddo l drefnu Cynhadledd heb ei hail.

Diolch hefyd i chi am fynychu'r Gynhadledd a'i wneud yn gymaint o lwyddiant.

Rydych wedi profi unwaith yn rhagor fod UCAC unwaith eto ar flaen y gad ar sawl agwedd. A byddwn yn parhau i sicrhau llais yr aelodau a bod yn gefn iddynt dros y flwyddyn nesaf, wrth gwrs.

Hynny yng nghyd-destun y ffaith mai ni yw'r undeb llafur athrawon rhataf i fod yn aelod ohoni – a byddwn eto am flwyddyn academiaidd lawn o fis Medi, heb ystyried unrhyw gostau ychwanegol fydd yr undebau eraill yn eu codi ym mis Medi a mis Ionawr.

Ond yn bwysicach na hynny, wrth gwrs, yw'r ffaith fod UCAC yn parhau i gynnig y gwasanaeth gorau posibl i aelodau – yn y gweitho tawel personol, yn y cyd-weithio parchus ar bob lefel ac yn yr ymateb Cenedlaethol cadarn. Mae diolch mawr i chi oll am hynny.

Diolch i chi am eich cefnogaeth, diolch i chi am barhau i frwydro a chynrychioli

Cofiwch – mewn undeb mae nerth!

\* Rydym wedi derbyn gwahoddiad bellach i'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd ar Fai'r 22ain, 2025.